Yr Oen bach a'r Mwnci

Talu'r pwyth yn ôl / Parod i rannu

Pranciai'r oen bach o gwmpas y cae. Pwy ymddangosodd ar ben y clawdd ond y mwnci. Gofynnodd i'r oen bach, "wyt ti wedi cael digon i'w fwyta heddiw?"
"Na" oedd ateb yr oen bach. Neidiodd y mwnci o ben y clawdd a chafodd syniad da.
"Dilyn fi" meddai wrth yr oen bach, "a phan ddoi di at fy nghartref bydd digon o fwyd i ti ei fwyta."
Neidiodd y mwnci ar hyd y llwybr at ei gartref ar oen bach yn ei ddilyn. Cyrhaeddodd gartref y mwnci. Dyna lle roedd y mwnci yn neidio i fyny ac i lawr a gweiddi'n wyllt. "Ble rwyt ti wedi bod?" gofynnodd i'r oen bach.
"Roeddet ti'n mynd yn gyflym, gyflym a chofia oen bach ydw i. Coesau bach sydd gen i." meddai'r oen bach
"Wel, mi ydw i wedi bwyta'r bwyd i gyd," meddai'r mwnci. "Mae'r gweddill ar dop y goeden acw. Mae'n rhaid i ti ddringo'r goeden i gael dy fwyd."
Edrychodd yr oen bach i fyny i ben y goeden. Gwyddai na allai byth gyrraedd y bwyd. Gwyddai'r mwnci hynny hefyd.
"Dos i nol y bwyd i mi" meddai'r oen yn ddolefus.
Dringodd y mwnci'r goeden ar unwaith. Aeth i ben y goeden ac meddai, "Mae'n rhaid i ti ddringo i fyny'r goeden i gael bwyd."
Cychwynnodd yr oen bach am adref, yn llwglyd, blinedig a thrist. Meddyliodd am ffordd i ddial ar y mwnci.
Cafodd y mwnci wahoddiad i gael swper efo'r oen bach un noson. Roedd y mwnci'n falch nad oedd yr oen bach wedi llyncu mul. Derbyniodd y gwahoddiad.
I ffwrdd â'r mwnci i gael swper efo'r oen. Ar ei ffordd gwelodd fod y ddaear wedi llosgi. Roedd tân wedi llosgi'r tyfiant i gyd. Cyrhaeddodd a gweld fod yr oen bach wrthi'n gwneud pryd o fwyd mewn crochan mawr du. Roedd arogleuon hyfryd yn dod o'r crochan.

"Dwyt ti ddim yn cael bwyta efo fi" meddai'r oen bach.
"Edrych ar dy ddwylo. Mae'n nhw'n fudron. Dos yn ôl i'r afon i olchi dy ddwylo."
I ffwrdd â'r mwnci yn ôl i lan yr afon i olchi ei ddwylo. Dychwelodd drwy'r tir oedd wedi llosgi. Pan gyrhaeddodd yr ail waith roedd ei ddwylo'n ddu fel y frân.
"Dos yn ôl i olchi dy ddwylo eto," meddai'r oen bach. "Mae'n nhw'n ddu."
I ffwrdd â fo yn ôl i lan yr afon. Ac felly y bu am weddill y noson yn rhedeg yn ôl a blaen i olchi'i ddwylo. Tra roedd y mwnci yn mynd yn ôl a blaen roedd yr oen bach wrthi'n bwyta o'r crochan mawr. "Mae hwn yn flasus dros ben" meddai bob hyn a hyn.
Gorffennodd y tamaid olaf. Daeth y mwnci yn ôl a'i ddwylo yn ddu fel y frân. Sylweddolodd y mwnci fod wedi cael ei dwyllo gan yr oen bach. Rhedodd adref nerth ei draed.
"Dyna ddysgu gwers i ti yr hen fwnci bach," meddai'r oen bach a syrthiodd i gysgu. Roedd ei stumog yn llawn.

O Dduw, pan fydda i wedi cael fy mrifo paid â gadael i mi dalu'r pwyth yn ôl. Amen.

✦ Pa eiriau fyddech chi'n eu dewis i ddisgrifio'r oen bach?
✦ Pa eiriau fyddech chi'n eu dewid i ddisgrifio'r mwnci?